YMGYNGHORIAD YNGHYLCH Y CYNNIG I GREU RHEOLIAD O DAN Y SENEDD A'R CYNGOR EWROPEAIDD AR GRWYDRO DROS RWYDWEITHIAU FFÔN POCED CYHOEDDUS O FEWN Y GYMUNED (COM (2006) 382: BRWSEL 12.07.2006)

HYDREF 2006

URN: 06/1978

URN: 06/1978W (FERSIWN CYMRAEG)

Ymgynghoriad yn ceisio sylwadau am y cynnig i greu rheoliad o dan y Senedd a'r Cyngor Ewropeaidd ar grwydro dros rwydweithiau ffôn poced cyhoeddus o fewn y Gymuned

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio'ch barn am y cynnig uchod a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 12 Gorffennaf 2006 ac sydd ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor Gweinidogion.

Dyddiad dechrau: 23 Hydref 2006

Dyddiad cau: 12 Ionawr 2007

Ymholiadau i:

Anne Grikitis
Bay 246
Mobile Communications Policy Team
Department of Trade and Industry
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1 W 9SS

Tel: 020 7215 1782
Ffacs: 020 7215 4189

E-bost: anne.grikitis@dti.gsi.gov.uk

Rhestr Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol

2. Sut i ymateb

3. Cymorth gydag ymholiadau
4. Beth sy'n digwydd nesaf?

5. Cwestiynau ymgynghori

6. Geirfa

Atodiadau

Atodiad A – Asesiad Rhannol o'r Adrawiad Rheoleiddio

Atodiad B – Meini Praw'r Cod Gweithredu yng nghyswllt Ymgynghori
Atodiad C – Cyrff yr ymgynghorwyd ac y bwriedir ymgynghori â nhw

1. Crynodeb Gweithredol

Nod cynnig y Comisiwn[1] yw rheoli'r taliadau a godir am alwadau ffôn poced wrth deithio dramor (galwadau 'crwydro') o fewn yr UE. Mae'r cynnig bellach yn cael ei ystyried gan y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor Gweinidogion. Bwriad y Comisiwn yw rhoi'r wedd derfynol arno, gydag unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol, a'i weithredu erbyn haf 2007.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw sicrhau sylwadau a gwybodaeth am effeithiau tebygol cynnig y Comisiwn ar ddefnyddwyr, dinasyddion a busnesau'r DU, i ategu safle'r Llywodraeth mewn trafodaethau â'r Cyngor ac mewn mannau eraill. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn parhau rhwng 23 Hydref 2006 a 12 Ionawr 2007. Fe werthfawrogid ymateb cynnar.

Mae esboniad manwl o grwydro a sut mae'n gweithio i'w weld yn:

http://europa.eu.int/information_society/activities/roaming/how_it_works/index_en.htm]

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnal dwy gyfres o ymgyngoriadau ledled y Gymuned hyd yn hyn, yn Chwefror-Mawrth 2006 ac Ebrill-Mai 2006. Gellir gweld canlyniadau'r ymgynghori hwn ar wefan Europa yn:

http://europa.eu.int/information_society/activities/roaming/roaming_regulation/first_phase/index_en.htm

ac

http://europa.eu.int/information_society/activities/roaming/roaming_regulation/consultation/index_en.htm

Cynigion allweddol y Comisiwn yw:

- Hybu "Ymagwedd Marchnad Gartref Ewropeaidd" i sicrhau na fydd y prisiau a delir gan deithwyr o fewn yr Undeb Ewropeaidd yn uwch nag wrth ffonio yn eu gwlad eu hun;
- Gostwng prisiau manwerthu drwy gyflwyno capan i alwadau crwydro rhyngwladol dros ffonau poced;
- Gostwng prisiau cyfanwerthu (a elwir hefyd yn Rhestrau Prisiau Rhyng-gweithredwyr) i hwyluso gostwng prisiau manwerthu a sicrhau na fydd gweithredwyr bach dan anfantais;

[1] Cynnig i greu rheoliad o dan y Senedd a'r Cyngor Ewropeaidd ar grwydro dros rwydweithiau ffôn poced cyhoeddus o fewn y Gymuned: COM (2006) 382 terfynol. Mae testun llawn y cynnig hwn i'w weld ar wefan y Comisiwn yn http://europa.eu.int/information_society/activities/roaming/docs/regulation_en.pdf

- Cyflwyno capan ar gyfer y taliadau y bydd y rhai sy'n derbyn galwadau crwydro rhyngwladol o ffonau poced yn eu talu; a
- Gwella tryloywder y prisio i ddefnyddwyr drwy gyflwyno trefniadau fydd yn sicrhau bod modd i ddefnyddwyr gael gwybodaeth am restrau prisiau galwadau crwydro'n ddidrafferth a heb gost iddynt eu hunain.

Dyma farn gyfredol y DU am y cynnig, yn fras:

- Rydym yn llwyr gefnogi nod cyffredinol y Comisiwn o sicrhau bod taliadau galwadau crwydro dros ffonau poced yn gostwng yn fuan ac yn sylweddol ledled Ewrop gyfan i bob defnyddiwr.
- Rydym yn llwyr gefnogi'r nod o gysoni prisiau cyfanwerthu a'r costau gwirioneddol. Yn niffyg rheoleiddio, credwn y byddai grymoedd cystadleuaeth ar ei phen ei hun yn gweithio'n annerbyniol o araf.
- Cefnogwn, felly, y syniad o osod capan prisiau ar daliadau cyfanwerthu rhyngwladol am alwadau crwydro.
- Credwn ei bob yn bosib na fydd gweithredwyr yn llwyr drosglwyddo'r gostyngiad mewn costau cyfanwerthu i wasanaethau manwerthu yn y maes crwydro. Ond mae gennym rai pryderon ynghylch manylion ateb arfaethedig y Comisiwn i hyn.
- Yn fwyaf arbennig, ni chawsom ein hargyhoeddi y bydd cynnig y Comisiwn i osod capan prisiau manwerthu ar gyfer galwadau a wneir yn arwain mewn gwirionedd at brisiau sylweddol is i ddefnyddwyr at ei gilydd, nac yn caniatáu i gyflenwyr ddigon o hyblygrwydd i barhau i gynnig cynhyrchion a phecynnau blaengar wedi'u teilwra yn ôl hoffter y defnyddiwr. Er y byddai gosod capan yn debygol o sicrhau prisiau manwerthu is ar gyfer galwadau crwydro a wneir, mae peryg hefyd, yn ein barn ni, y gallai prisiau manwerthu rhai cynhyrchion eraill, gan gynnwys gwasanaethau domestig, godi o ganlyniad, a/neu y byddai cyfyngiad ar wasanaethau crwydro neu na fyddent mwyach ar gael i rai defnyddwyr.
- Ein ffafriaeth gref, yn lle gosod capan o'r fath, fyddai cynnwys 'cymal codiad haul' yn y rheoliad, fel na ddeuai'r rheoleiddio ar brisiau manwerthu i rym ond ar ôl cyfnod arbennig, ac wedyn dim ond lle nad oedd y gweithredwyr ffonau poced wedi gostwng eu prisiau manwerthu'n sylweddol erbyn hynny.
- Cefnogwn hefyd gynigion y Comisiwn ar gyfer rheoleiddio'r taliadau am dderbyn galwadau crwydro, os ceir cytundeb ynghylch y manylion.
- Cefnogwn gynigion y Comisiwn ar gyfer gwella tryloywder y taliadau am wneud a derbyn galwadau crwydro, unwaith eto os ceir cytundeb ynghylch manylion gwireddu hyn.
- Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yn yr Asesiad o'r Ardrawiad Rheoleiddio a gyhoeddir gyda'r ymgynghoriad hwn.

- Mae'r Comisiwn hefyd wedi paratoi Asesiad o'r Ardrawiad Rheoleiddio; gellir gweld hwn, gyda gwybodaeth gefndir bellach, yn:

  http://ec.europa.eu/information_society/activities/roaming/roaming_regulation/index_en.htm

2. Sut i ymateb

Wrth ymateb, byddwch cystal â nodi a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn rhyw gorff. Os ydych yn ymateb ar ran corff, gofalwch ei gwneud yn glir pwy mae'r corff yn eu cynrychioli a, lle bo hynny'n gymwys, sut y cydgasglwyd sylwadau'r aelodau.

Amgaeir copi o ffurflen ymateb yr ymgynghoriad. Mae fersiwn electronig hefyd ar gael yn http://www.dti.gov.uk/consultations/

Byddai'n well gennym gael ymatebion drwy e-bost, ond cewch hefyd ymateb drwy lythyr neu ffacs i:

Darren Holness
Mobile Communications Team
Department of Trade and Industry
Bay 246
151 Buckingham Palace Road
Tel: 020 7215 1600
Ffacs: 020 7215 4189
E-bost darren.holness@dti.gsi.gov.uk

Fe welir rhestr o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw'n barod a'r rhai y bwriadwn ymgynghori â nhw yn Atodiad C. Byddem yn croesawu awgrymiadau'n enwi eraill y gallent fod am chwarae rhan yn y broses ymgynghori hon.

Copïau ychwanegol

Cewch wneud copïau o'r ddogfen hon heb geisio caniatâd. Mae dogfennau'r ymgynghoriad hwn ar gael i'w dadlwytho'n electronig o wefan y DTI: http://www.dti.gov.uk/consultations/ [Mae fersiwn Cymraeg hefyd ar gael]. Gellir cael copïau argraffedig pellach o'r ddogfen ymgynghori gan:

DTI Publications Order line
ADMAIL 528
Llundain SW1W 8YT
Tel: 0845 015 0010
Ffacs: 0845 015 0020
Minicom: 0845 015 0030

www.dti.gov.uk/publications

Mae fersiynau eraill o'r ddogfen ar ffurf Braille, mewn ieithoedd eraill neu ar dâp sain ar gael drwy wneud cais.

Cyfrinachedd a Gwarchod Data

Gall gwybodaeth a roir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r darpariaethau mynediad i wybodaeth (sef, yn bennaf, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Gwarchod Data 1998 (DPA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os hoffech i unrhyw wybodaeth a rowch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech gadw mewn cof bod yr FOIA yn darparu ar gyfer Cod Ymarfer statudol y mae'n rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n delio, ymhlith pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, byddai o gymorth pe gallech egluro wrthym pam eich bod yn ystyried bod yr wybodaeth a roesoch yn gyfrinachol. Os cawn gais am ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd bod modd cynnal cyfrinachedd ymhob amgylchiad. Nid ystyrir bod ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a greir gan eich system TG ynddo'i hun yn cyfrwymo'r Adran.

Bydd yr Adran yn prosesu'ch manylion personol yn unol â'r DPA ac yn y mwyafrif o achosion bydd hyn yn golygu na chaiff eich manylion mo'u datgelu i eraill.

3. Cymorth gydag ymholiadau

Gellir cyfeirio cwestiynau am y materion polisi a godir yn y ddogfen hon at:

Enw: Anne Grikitis
Tîm: Mobile Communications Team
Department of Trade and Industry
151 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SS

Tel: 020 7215 1782 (Anne Grikitis)
E-bost: anne.grikitis@dti.gsi.gov.uk

Os oes gennych sylwadau neu gwynion am y modd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn, dylid anfon y rhain at:

Mary Smeeth, Consultation Co-ordinator
Department of Trade and Industry
Better Regulation Team

1 Victoria Street
Llundain
SW1H 0ET
E-bost: Mary.Smeeth@dti.gsi.gov.uk
Tel: 020 7215 2146
Ffacs: 020 7215 2826

Gwelir copi o'r Cod Ymarfer yng nghyswllt Ymgynghori yn Atodiad B.

4. Beth sy'n digwydd nesaf?

Dyddiad cau'r ymgynghoriad hwn yw dydd Gwener 12 Ionawr 2007. Dylai ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad gael ei gyhoeddi ar wefan y DTI o fewn 3 mis i ddyddiad cau'r ymgynghoriad.

5. Cwestiynau ymgynghori

Ymatebwch i'r cwestiynau dim ond lle bôn nhw'n gymwys. Fe'u gwelir wedi'u hailadrodd ar Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad

Cwestiwn 1: P'un (os o gwbl) o'r tri opsiwn a gynigir yn yr Asesiad Rhannol o'r Ardrawiad Rheoleiddio (Opsiwn 1: gwneud dim; Opsiwn 2: cyflwyno capan prisiau cyfanwerthu, gyda chapan manwerthu wedi'i ei sbarduno gan gymal codiad haul – dim ond os na fydd y prisiau manwerthu'n disgyn i lefel gytûn; neu Opsiwn 3: cyflwyno capiau cyfanwerthu a manwerthu fel ei gilydd) sydd orau gennych a pham?

Cwestiwn 2: I ba raddau y defnyddiwch chi deleffoni ffôn poced ar gyfer galwadau crwydro rhyngwladol o fewn yr UE: er enghraifft, faint y flwyddyn y byddwch chi/eich busnes yn ei wario ar alwadau o'r fath? Fyddwch chi'n manteisio ar 'fargeinion' gweithredwyr rhwydwaith i gael costau crwydro is wrth deithio dramor? Ydych chi'n credu bod costau crwydro eisoes yn werth da am bres? Fyddech chi'n defnyddio gwasanaethau crwydro'n fwy pe bai unrhyw un neu bob un o'r galwadau a dderbyniwch, galwadau mewnwladol neu'r galwadau a wnewch yn rhatach?

Cwestiwn 3: Pa effaith y rhagwelwch y bydd y rheoliadau a arfaethir yn ei chael ar eich busnes a/neu eich bywyd personol? Pa mor bwysig i chi/i'ch busnes y mae'r taliadau a dalwch am alwadau crwydro wrth deithio yn yr UE? Allwch chi enwi unrhyw ganlyniadau neu ymhlygiadau anfwriadol eraill i'r cynnig hwn? Oes gennych chi farn am y dadansoddiad o gostau a buddion a nodir yn yr Asesiad atodedig o'r Ardrawiad Rheoleiddio?

Cwestiwn 4: Ydy hi'n rhwydd ichi gael gwybodaeth am brisiau galwadau crwydro rhyngwladol dros ffonau poced yn yr UE ac am daliadau eraill

cyn teithio neu pan fyddwch chi am ddefnyddio'ch ffôn mewn gwlad dramor? Os nad ydy, sut y gellid gwella hyn?

Cwestiwn 5: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill a allai fod o gymorth i'r broses ymgynghori yn ei chrynswth? Oes yna unrhyw ychwanegiadau neu newidiadau i'r Rheoliad yr hoffech eu gweld? Fyddech chi'n hoffi gweld gwasanaethau SMS a/neu ddata yn cael eu rheoleiddio o dan gynigion y Comisiwn?

Crwydro rhyngwladol	Y gallu i ddefnyddio ffonau poced i wneud galwadau wrth deithio dramor.
RIA	Asesiad o'r Ardrawiad Rheoleiddio
SMS	Gwasanaeth Negesau Byr, neu negesau testun
Ymagwedd Marchnad Gartref Ewropeaidd	Na ddylai'r prisiau a delir gan ddefnyddwyr sy'n teithio yn yr UE fod yn uwch nag wrth ffonio yn eu gwlad eu hun
Prisiau cyfanwerthu	Y pris y bydd y gweithredwr rhwydwaith cartref yn ei dalu i'r gweithredwr yn y wlad a grwydrir am gael defnyddio'i rwydwaith er mwyn i gwsmeriaid wneud galwadau
Cymal codiad haul	Yma: darpariaeth na ddaw'r rheoliad prisiau manwerthu i rym ond ar ôl ysbaid arbennig, ac wedyn dim ond lle nad oedd y gweithredwyr ffonau poced wedi gostwng eu manwerthu cyfartalog o swm penodol erbyn yr amser hwnnw
Cytundeb Rhufain	Cytundeb Rhufain a sefydlodd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) a chafodd ei llofnodi gan Ffrainc, Gorllewin yr Almaen, yr Eidal, Gwlad Belg, yr Iseldiroedd a Lwcsembwrg (y tri olaf fel rhan o Benelwcs) ar 25 Mawrth 1957.
Cytundeb Maastricht	Llofnodwyd Cytundeb Maastricht ym 1992. Ers y cytundeb hwn, yr Undeb Ewropeaidd y gelwir y Gymuned Ewropeaidd (CEE) gynt. Cafodd y cytundebau oedd yn bod ar y pryd eu hestyn drwy ddarpariaethau ynghylch cydweithrediad mewn meysydd polisi fel polisi economaidd ac ariannol, polisi tramor a diogelwch, polisi cymdeithasol a rhannau o'r meysydd polisi a ymwnâi â materion domestig a chyfiawnder.

Atodiad A

Asesiad Rhannol o'r Ardrawiad Rheoleiddio

1. Teitl y cynnig

Cynnig i greu Rheoliad o dan y Senedd a'r Cyngor Ewropeaidd ar rwydweithiau ffôn poced cyhoeddus o fewn y Gymuned, gan ddiwygio Cyfarwyddeb 2002/21/EC ar fframwaith rheoleiddio cyffredin ar gyfer rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig (COM (2006) 282 terfynol).

Cyd-drafodir y cynnig ar hyn o bryd.

2. Diben ac effaith arfaethedig

Amcanion

Prif amcanion y Comisiwn yw gwireddu, fel rhan o gwblhad un Farchnad Ewropeaidd ar gyfer gwasanaethau, ostyngiad sylweddol yn lefel y taliadau crwydro am ddefnyddio ffonau poced ar draws y Gymuned, a hybu tryloywder rhestrau prisiau am alwadau crwydro, gan helpu defnyddwyr drwy hynny i ddethol y contractau neu'r rhestrau prisiau mwyaf buddiol i'w dibenion.

Cefndir

Os yw marchnadoedd a chystadleuaeth yn gweithio'n dda, bydd prisiau'n adlewyrchu costau. Daw hyn â dwy fantais yn ei sgil: yn gyntaf, bod prynwyr yn gallu gwneud penderfyniadau doeth am y nwyddau a hoffent, ac yn ail, gwobrwyo'r cynhyrchwyr hynny sy'n amlygu blaengaredd ac yn cynnig y cynhyrchion sydd eisiau ar brynwyr. Mae'r Comisiwn wedi canfod bod modd i'r prisiau manwerthu am grwydro rhyngwladol fod yn sylweddol uwch na'r costau. Amcangyfrifodd y Comisiwn yn ei Asesiad o'r Ardrawiad fod y pris manwerthu am bob munud o alwadau crwydro tua phum gwaith y gost gyfanwerthu ar gyfartaledd (er bod y diwydiant yn amau hyn). Y broblem yr ymgodyma llywodraethau â hi, felly, yw sut i wireddu gostyngiad yn y prisiau hyn a godir. Amlinellir yn y ddogfen hon dair ffordd bosib o symud ymlaen at y nod hwn.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn pryderu ers tro am brisiau uchel canfyddedig galwadau crwydro rhyngwladol dros ffonau poced. Yn Chwefror 2006, cyhoeddodd Viviane Reding, Comisiynydd y Gymdeithas Gwybodaeth am Gyfarwyddiaethau Cyffredinol, y câi rheoliadau eu cyflwyno i reoli lefel y prisiau crwydro rhyngwladol, ac yn sgil dwy gyfres ymgynghori, cynigiwyd yng Ngorffennaf 2006 reoliadau drafft y cynhelir cyd-drafodaethau yn eu cylch ar hyn o bryd. Y cynnig a ffefrir gan y Comisiwn (yr 'Ymagwedd

Marchnad Gartref Ewropeaidd') yw pennu uchafswm i brisiau cyfanwerthu a manwerthu am bob munud. Câi prisiau cyfanwerthu eu cyfyngu i uchafswm o ddwywaith y 'gyfradd derfynu' Ewropeaidd gyfartalog ar gyfer galwadau ffonau poced (ar hyn o bryd tua 13 sent) o fewn y wlad yr ymwelir â hi, a theirgwaith y gyfradd hon am alwadau adref neu i wladwriaeth arall o fewn yr UE. Câi lled yr elw manwerthu ei gyfyngu i uchafswm o 30% uwchlaw'r lefelau cyfanwerthu. Pe bai dewis reoliad y Comisiwn Ewropeaidd mewn grym yn awr, 49 sent (tua 33c) ar y mwyaf fyddai'r pris am ffonio adref o wlad dramor o fewn yr UE, 33 sent (tua 22c) ar y mwyaf fyddai pris manwerthu galwad leol a wneid mewn gwlad dramor o fewn yr UE, a byddai capan o 16.5 sent y funud (tua 10c) i'r pris manwerthu am dderbyn galwad o ffôn poced wrth deithio gwlad arall yn yr UE. Byddai'r cynigion yn effeithio ar ryw 147 miliwn o alwyr y flwyddyn – 37 miliwn o ymwelwyr a 110 miliwn o alwyr busnes ar draws yr UE. (Ni wyddys sawl un sydd yn Brydeinig).

Nod y Comisiwn Ewropeaidd yw gweithredu'r rheoliadau hyn erbyn haf 2007.

Mae tystiolaeth dda sy'n awgrymu mai ychydig yw effaith grymoedd cystadleuaeth mewn dwy farchnad neu set o farchnadoedd cysylltiedig yn niwydiant telathrebu symudol Ewrop. Un yw'r farchnad gyfanwerthu ryngwladol, lle bydd gweithredwr mewn un wladwriaeth yn prydlesu gallu-trin gan weithredwr mewn gwladwriaeth arall fel bod modd i gleientiaid y gweithredwr cyntaf ddefnyddio'u ffonau yn nhiriogaeth yr ail weithredwr. Yr ail yw'r farchnad fanwerthu i wasanaethau o'r fath: gwerthu gwasanaethau ymlaen i gwsmeriaid, gan ddefnyddio'r gallu-trin a gaiff ei brydlesu.

Y dystiolaeth i'r achos cyntaf yw presenoldeb sawl amod a allai oeri cystadleuaeth: mae nifer y cystadleuwyr yn fach, ceir rhwystrau ymuno (ar ffurf trwyddedau i gael defnyddio'r sbectrwm radio sydd eisiau – sydd ynddo'i hun yn ased cyfyngedig), mae'r cynnyrch yn gydryw – nid yw'r galwadau'n amrywio ryw lawer o ran ansawdd, ac ati, rhwng gweithredwyr – ac mae'r prisiau i raddau helaeth yn ganfyddadwy i gyfranogwyr y farchnad. At hyn, mae tystiolaeth sy'n deillio o esblygiad y rhestrau prisiau. Tan 1998-9, roedd y rhestrau prisiau cyfanwerthu yn seiliedig ar restr (y Cytundeb Crwydro Rhyngwladol Safonol – STIRA) a ddarperid gan y gymdeithas fasnach, ar y cyd ag elw confensiynol ar gyfer taliadau manwerthu. Felly, fe gâi'r taliadau cyfanwerthu a manwerthu ei gosod gyda'i gilydd. Roedd lefel y ddau yn gymharol uchel. Cafwyd gwared â'r drefn hon ym 1998-9 o blaid ymagwedd fwy ryddfrydig yn defnyddio Rhestrau Prisiau Rhyng-gweithredwyr (IOT) heb gyswllt rhwng prisiau cyfanwerthu a manwerthu. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae'r rhestrau prisiau cyfanwerthu wedi aros yn uchel tra bod taliadau is wedi cydgyfeirio ar y rhai uwch. Mae'r ffactorau hyn wedi parhau i greu pryder ymhlith rheoleiddwyr.

Y rhesymau dros gredu y dylai cystadleuaeth gael ei ffrwyno yn y farchnad ar gyfer galwadau rhyngwladol ar y lefel fanwerthu yw'r rhai a nodwyd uchod gyda thri ffactor arall: nid yw cwsmeriaid, at ei gilydd, yn meddu ar yr wybodaeth orau, tra bod galwadau crwydro rhyngwladol, i'r mwyafrif o

gwsmeriaid, yn cyfrif am gyfran gymharol fach o'u cyllideb ffôn poced. At hyn, bydd cwsmeriaid (dros y tymor byr) wedi'u rhwymo'n aml gan gontract gyda gweithredwr.

Mae cydberthynas agos rhwng y ddwy farchnad. Mae difrawder ymddangosiadol defnyddwyr y pen draw ynghylch taliadau uwch yn rhoi cyfle i weithredwyr, fe ellid dadlau, adael prisiau manwerthu ar lefelau sy'n uchel o'u cymharu â'r taliadau am alwadau domestig a'r costau perthnasol.

3. Rhesymwaith ymyrraeth llywodraethau

Mae Llywodraethau'r DU yn derbyn bod angen sicrhau bod marchnadoedd yn agored a bod y cystadlu'n rymus ers dros hanner canrif. Mynegwyd yr egwyddorion hyn hefyd yng Nghytundebau Rhufain a Maastricht. Mae'r achos dros ymyrryd yn pwyso ar yr egwyddor bod modd i weithrediad nerth y farchnad arwain ar brisiau goruchel sy'n gwyrdroi marchnadoedd; mae hefyd yn dibynnu, fodd bynnag, ar yr amod bod y grymoedd cystadlu yn gweithredu'n araf neu'n rhai gwan oherwydd, er enghraifft, rwystrau rhag ymuno. Pan fo'r gystadleuaeth yn ddigon cryf i ddibynnu arni, mae'r achos dros ymyrryd yn lleihau. Mae'r dystiolaeth yn yr achos hwn yn awgrymu bod y diwydiant telathrebu symudol yn Ewrop, lle mae crwydro rhyngwladol yn y cwestiwn, yn profi lefel o gystadleuaeth nad yw mor egnïol â gweddill y diwydiant ac sy'n annhebygol o gael ei tharfu'n ddigymell hyd y gellir rhagweld.

Ymhellach, o dan ein rhwymedigaethau rhyngwladol, mae'n ofynnol i'r Llywodraeth gydymffurfio â rheoliadau'r UE sy'n effeithio'n uniongyrchol ar Wladwriaethau Aelodol cyn gynted ag y caiff y fersiwn terfynol ei argraffu.

4. Ymgynghori

Llywodraethol

Mae hwn yn fater sydd i raddau helaeth wedi'i gyfyngu i'r DTI; ond cynhaliwyd trafodaethau ag Adrannau eraill o'r Llywodraeth yn ôl sy'n briodol. Rydym hefyd wedi trafod â rheoleiddiwr annibynnol y DU ar gyfer y diwydiant telathrebu, Ofcom.

Ymgynghori cyhoeddus

Rydym hyd yn hyn wedi ymgynghori â gweithredwyr rhwydweithiau ffonau poced O2, Vodafone, T-Mobile, 3 ac Orange a pharhawn i gynnal trafodaethau â nhw. Ein bwriad yw ymgynghori'n ehangach â chymdeithasau masnach a chyrff defnyddwyr fel rhan o'r broses barhaol hon.

5. Opsiynau

Opsiwn 1: Dim newid polisi.

Opsiwn 2: Cyflwyno capan prisiau cyfanwerthu fel yr amlinellwyd yn adran 2 uchod, gyda chapan manwerthu wedi'i ei sbarduno gan Gymal Codiad Haul – dim ond os na fydd y prisiau manwerthu'n disgyn i lefel gytûn.

Opsiwn 3: Cyflwyno capiau cyfanwerthu a manwerthu fel ei gilydd, fel yr amlinellwyd yn adran 2 uchod yn unol â chynnig y Comisiwn.

6. Buddion

Prif fudd y rheoliad arfaethedig fydd gostwng prisiau manwerthu galwadau crwydro drwodd draw o ryw 40% o'r lefelau cyfredol. Bydd crwydrwyr rhyngwladol – yn unigolion a busnesau – yn ennill o ran incwm neu les go iawn; byddant yn manteisio ar fudd gwerth 6bn Ewro (tua £4bn) y flwyddyn yn ôl amcangyfrif y Comisiwn o dan yr 'Ymagwedd Marchnad Gartref Ewropeaidd' a ffefrir ganddo. Mae'r budd yn deillio'n rhannol o brisiau is am lefelau trafnidiaeth presennol ac yn rhannol o'r fantais neu'r warged ddefnyddwyr yn sgil crwydro ychwanegol. (Nodyn: mae'r gweithredwyr yn amau'n amcangyfrif hwn).

Mor bell ag y mae galwadau crwydro rhyngwladol yn fewnbwn i fusnesau eraill, bydd prisiau is, drwy godi'r galw am y gwasanaeth hwn, yn hybu arbenigo a chyfnewid rhyngwladol (enillion y fasnach) o fewn yr UE, gan feithrin cynhyrchedd ledled y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Mae taliadau uchel am grwydro rhyngwladol yn yr ymylon yn debyg o rwystro gallu cwmnïau'r DU i ennill archebion allforio a chyrchu mewnbynnau blaengar, ansawdd-uchel cyflenwyr y Cyfandir.

7. Costau

Ohono'i hun, mae gostwng prisiau crwydro rhyngwladol ar y lefelau cyfanwerthu a manwerthu yn debyg o leihau incwm y gweithredwyr o'r drefn grwydro. Mae crwydro'n creu tua 7% o refeniw'r diwydiant, sy'n ymhlygu y byddai'r rheoliadau a ffefrir gan y Comisiwn (sy'n rhagweld gostwng o 50-60% o gymharu â lefelau cyfredol) ynddynt eu hunain yn lleihau refeniw o ryw 3%. (Nid ystyrir bod costau gweinyddol mewn cysylltiad â gweithredu a monitro'r rheoliad yn debyg o fod yn sylweddol o'u cymharu.) Cwestiwn pwysig, fodd bynnag, yw a fydd gweithredwyr yn ymateb, ac i ba raddau yr ymatebant, i daliadau crwydro is drwy godi'r taliadau am wasanaethau (domestig) eraill (a/neu yn cymryd camau fel tynnu gwasanaethau crwydro yn ôl o rai cwsmeriaid). I'r graddau y byddai hyn yn digwydd, byddai'r defnyddwyr yr effeithid arnynt gan y mesurau hynny yn tynnu costau neu golledion lles. Ond gan na fyddai modd i weithredwyr, oherwydd cystadleuaeth, godi prisiau o'r fath, byddai'r colledion yn aros ar eu dwylo nhw, ac ni fyddai defnyddwyr yn colli dim.

Mae barn y Comisiwn Ewropeaidd a barn Ofcom, rheoleiddiwr annibynnol y DU i'r sector, yn wahanol ar yr agwedd hon i'r sefyllfa. Mae'r Comisiwn yn gweld crwydro rhyngwladol yn is-farchnad ar wahân, yn gymharol annibynnol ar is-farchnadoedd eraill ar gyfer gwasanaethau telathrebu dros ffonau poced. Ar y sail hon, mae'n dadlau mai gwedd 'arian annisgwyl' fyddai i unrhyw golli elw a ddeuai i ran gweithredwyr, ac fel y cyfryw mai ychydig o effaith, os o gwbl, a gâi ar is-farchnadoedd eraill megis is-farchnad gwasanaethau domestig. Mae'r Comisiwn, felly, yn teimlo'n hyderus na fydd rheoli prisiau, a chan hynny yr elw sydd ynghlwm wrth grwydro rhyngwladol, yn arwain at restrau prisiau uwch ar gyfer gwasanaethau eraill. Mae Ofcom o'r farn, fodd bynnag, fod crwydro rhyngwladol i'w weld yn rhan o gasgliad o wasanaethau sy'n cynnwys SMS, teleffoni llais domestig a chynhyrchion eraill. Mae hyn, fe gred Ofcom, yn wir am ddarparwyr a defnyddwyr ill dau. Ar y persbectif hwn, bydd gweithredwyr yn cystadlu am gwsmeriaid drwy gynnig pecynnau cymhleth o wasanaethau, ac fe wnânt hynny drwy ddarparu'r cymysgedd mwyaf cystadleuol o brisiau. Felly, mae'r rhestrau prisiau ar gyfer pob gwasanaeth yn dwyn perthynas â'i gilydd o fewn y pecyn. O gofio hyn, mae gan ryw newid (tuag i lawr) mewn rhestrau prisiau crwydrol y potensial o newid pob rhestr brisiau arall yn y pecyn (tuag i fyny) fel bod gweithredwyr yn cadw'u lefelau elw. Mae Ofcom gan hynny o'r farn bod tebygolrwydd pendant, gan fod y rheoliad yn effeithio ar bob gweithredwr, y bydd cymhelliant i bob gweithredwr ailgydbwyso rhestrau prisiau drwy gynyddu'r taliadau a godir ar ddefnyddwyr domestig.

O bersbectif y refeniw, gall fod modd, fe gred Ofcom, i'r rheoliad arwain at ailgydbwyso yng nghyswllt elw ac y byddai defnyddwyr, i'r graddau eu bod yn gwneud galwadau domestig a chrwydrol fel ei gilydd, ar eu hennill ar y naill law ac ar eu colled , o bosib, ar y llall.

Fodd bynnag, o gofio natur gwasanaethau crwydro (sydd yn eu hanfod yn alwadau a wneir wrth deithio gwlad arall), mae'n debyg y bydd defnyddio cryn uwch ar alwadau domestig a gwasanaethau eraill nag ar alwadau crwydrol. Felly, er y gall crwydrwyr weld gostyngiad yn y prisiau a godir, gall pob defnyddiwr wynebu cynnydd mewn taliadau domestig. O gofio'r gwahaniaeth yng nghyfran y defnyddio ar wasanaethau crwydro a domestig, mae'n debyg y bydd lefel uchel o ddefnyddwyr yn wynebu anfantais yn sgil taliadau domestig uwch, o'u cymharu â'r ychydig fydd yn profi mantais taliadau crwydro is. Effaith yn, hwyrach, fydd lleihau'r budd cyffredinol i ddefnyddwyr. Felly, gall defnyddwyr nad ydynt yn manteisio ar wasanaethau crwydro ysgwyddo taliadau domestig uwch ond ni fyddent ar eu hennill o daliadau crwydro is.

Barn Ofcom, gan hynny, yw mai'r farchnad ei hun sydd yn y sefyllfa orau i asesu lefel y taliadau manwerthu crwydrol, a thrwy wneud felly, y gellid osgoi effeithiau ailgydbwyso o'r fath. Pe bai'r rheoliad yn lleihau elw'r gweithredwyr, gellid effeithio ar fuddsoddiad ac Ymchwil a Datblygiad gan y diwydiant.

Mae'r tri pharagraff a ganlyn yn ymgais i bwyso a mesur y costau sy'n gysylltiedig â'r tri phrif opsiwn sydd o dan ystyriaeth. Wrth archwilio'r ffigurau isod, dylid nodi nad ymgymerwyd eto â dadansoddiad a gydnabyddir yn helaeth ac a gaiff ei adolygu gan gyfranogwyr cyfurdd, ac nad oes canlyniadau o'r fath yn y maes cyhoeddus hyd yn hyn; o'r herwydd, nid oes amcangyfrifon a dderbynnir gan bawb.

Mae'r ffigurau'n cyfeirio at yr UE ac nid y DU.

Opsiwn 1:

Ym marn y Comisiwn, o dan yr opsiwn hwn bydd prisiau ar y lefelau cyfanwerthu a manwerthu yn disgyn ond o fesur llai nag o dan yr opsiwn a ffefrir ganddo (rhif 3). Yn ôl amcangyfrif y Comisiwn, mae'r warged ddefnyddwyr o dan Opsiwn 1 yn debyg o godi o €1.5bn (£0.9bn) tra bod colled warged y cynhyrchwyr yn cyrraedd €1bn (£0.6bn), gan roi cynnydd net o €0.5bn (£300m) y flwyddyn ar draws yr UE. Mae ffynonellau'r diwydiant yn dadlau mai gor-amcangyfrif yw hyn a chynigiant y ffigur llawer is o €80m (£50m) y flwyddyn.

Opsiwn 2:

Ym marn y Comisiwn, o dan yr opsiwn hwn mae'r warged ddefnyddwyr yn debyg o godi o ryw €2.2bn y flwyddyn tra bod gwarged y cynhyrchwyr yn disgyn o ryw €1.5bn, gan roi cynnydd lles net o ryw €700m y flwyddyn (£400m). Unwaith eto, mae'r ffigur hwn yn cael ei amau gan ffynonellau diwydiant sydd wedi amcangyfrif y gallai'r opsiwn hwn roi'r un canlyniadau ag opsiwn 1 (€80m neu £50m y flwyddyn) ar draws yr UE.

Un risg posib gydag opsiwn 2 yw'r ansicrwydd fydd yn bodoli nes eglurhau ystyriaethau gweithredol yng nghyswllt cymhwyso'r cymal 'codiad haul' (e.e. gyda golwg ar y drefn gysylltiedig ar gyfer monitro prisiau). Y disgwyl, fodd bynnag, yw, os caiff yr opsiwn hwn ei fabwysiadu yn fersiwn terfynol y rheoliad, y bydd modd gwneud darpariaeth briodol ynddo i ddileu ansicrwydd o'r fath neu ei leihau'n sylweddol.

Opsiwn 3:

Yr opsiwn hwn sy'n cynnig y buddion net uchaf yn ôl amcangyfrifon y Comisiwn. Dangosir buddion i ddefnyddwyr o €5.3bn (£3.3bn) y flwyddyn tra bod gweithredwyr yn dioddef colledion o tua €4.2bn (£2.6bn) y flwyddyn, gan roi cynnydd lles net o €1.1bn (£750m) y flwyddyn ar draws yr UE.

Un risg sydd o bosib yn ddifrifol gyda'r opsiwn hwn, fodd bynnag, yw y byddai'n mandadu rhestr brisiau gymharol simplistig (yn nhermau'r uchafswm am bob munud) a allai gyfyngu gallu gweithredwyr i ddyfeisio rhestrau prisiau blaengar a phecynnau sy'n cydweddu'n agosach â ffafriaeth

y cwsmer. Gallai fod ffurfiau eraill i hyn, fel tanysgrifiad misol gyda hyn a hyn o funudau 'di-dâl'. Yn ychwanegol, mae peryg, drwy gyfyngu taliadau crwydro, y gallai fod is-effeithiau ar wasanaethau eraill, gan leihau, o bosib, y budd cyffredinol i ddefnyddwyr a ddeuai yn sgil rheoleiddio'r maes manwerthu.

8. Prawf Ardrawiad ar Gwmnïau Bach

Dylai'r rheoliad arfaethedig hwn fod o fudd i gwmnïau bach y bydd eu haelodau staff yn teithio dramor ar fusnes, gan ddefnyddio'r dechnoleg symudol fel dull cyfathrebu. Gobeithiwn y caiff y farn hon ac unrhyw effeithiau eraill eu datblygu fel rhan o waith pellach ac mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad hwn.

I'r graddau y bydd y rheoliad yn llwyddo i wireddu'i amcanion, caiff y manteision eu trosglwyddo i fentrau bach a chanolig y DU sy'n defnyddio crwydro rhyngwladol.

9. Asesu Cystadleuaeth

Mae cystadlu newydd yn y diwydiant telathrebu symudol wedi'i gyfyngu gan y rheidrwydd i weithredwyr sicrhau trwydded. Mae cystadleuaeth, felly, wedi'i chyfyngu i gwmnïau sy'n dal trwyddedau o'r fath. Ni fydd y rheoliad a arfaethir yn newid y rheidrwydd hwn. Dealltwriaeth y rheoleiddwyr yw bod y gystadleuaeth mewn crwydro rhyngwladol wedi'i lleddfu o'i chymharu â'r gystadleuaeth mewn is-sectorau neu is-farchnadoedd eraill. Mae'r tri opsiwn a gynigir yn gwahaniaethu o ran eu heffeithiau arfaethedig ar y gystadleuaeth. Mae'r cyntaf, gwneud dim, yn seiliedig ar y dybiaeth bod y gystadleuaeth yn egnïol ac felly y gellir dibynnu arni i wthio'r taliadau am grwydro rhyngwladol tuag i lawr. Mae'n tynnu sylw at dueddiadau diweddar mewn taliadau ac at y bwriadau a leisir gan o leiaf rai gweithredwyr i barhau gostyngiadau o'r fath.

Mae'r ail opsiwn a'r trydydd yn seiliedig ar y farn nad yw'r gystadleuaeth yn ddigon egnïol eto. Yn ôl y farn hon, mae'n bosib nad yw gostyngiadau diweddar mewn prisiau yn ddangosydd dibynadwy ar gyfer cystadlu cyffredinol egnïol ymhlith gweithredwyr. Er enghraifft, mae'r Comisiwn wedi awgrymu mai dim ond pan amlygodd y Comisiwn Ewropeaidd fwriad digamsyniol i gyflwyno capiau prisiau y dechreuodd gweithredwyr ostwng prisiau. Gan hynny, mae Opsiynau 2 a 3 yn ceisio disodli cystadleuaeth (wedi'i lleddfu) â chapan prisiau ar y lefel gyfanwerthu. Mae Opsiwn 2 yn seiliedig ar y farn bod y cystadlu ar y lefel fanwerthu yn egnïol yn y DU serch hyn, ac yn dibynnu ar gystadleuaeth i sicrhau trosglwyddo rhesymol o ran taliadau cyfanwerthu is i'r lefel fanwerthu, tra'n cadw posibilrwydd rheoleiddio manwerthu fel p□er wrth gefn y gellir ei osod yn gyflym os na fydd prisiau manwerthu yn disgyn o'r mesur sydd eisiau drwodd draw. Mae presenoldeb gweithredwyr rhithwir yn y DU yn dystiolaeth o blaid y farn hon. Mae Opsiwn 3 yn seiliedig ar y farn bod y gystadleuaeth am y fasnach

grwydro ryngwladol wedi bod ac yn debyg o barhau i fod wedi'i lleddfu ar y lefelau cyfanwerthu a manwerthu fel ei gilydd, ac felly yn ceisio disodli capiau prisiau drwy brisiau wedi'u pennu yn ôl y farchnad ar y ddwy lefel.

Man cysylltu ar gyfer ymholiadau: Anne Grikitis, Tîm Cyfathrebu Symudol, Adran Masnach a Diwydiant. Tel: 0207 215 1782 (Anne Grikitis). E-bost: anne.grikitis@dti.gsi.gov.uk

Man cysylltu ar gyfer ymatebion: Darren Holness, Tîm Cyfathrebu Symudol, Adran Masnach a Diwydiant. E-bost: Darren.holness@dti.gsi.gov.uk

ATODIAD B

Meini Praw'r Cod Gweithredu yng nghyswllt Ymgynghori

1. Ymgynghori'n eang drwy gydol y broses, gan ganiatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer ymgynghori ysgrifenedig o leiaf unwaith wrth ddatblygu'r polisi.

2. Bod yn glir ynghylch y cynigion, pwy y gellid effeithio arnynt, pa gwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r amserlen ar gyfer ymateb.

3. Sicrhau bod yr ymgynghori'n glir, yn gryno ac yn hygyrch yn eang.

4. Trefnu atborth ynghylch yr ymatebion sy'n dod i law a sut y bu i'r ymgynghori effeithio ar y polisi.

5. Monitro effeithiolrwydd eich adran o ran ymgynghori, gan gynnwys drwy ddefnyddio cydgysylltydd ymgynghori dynodedig.

6. Sicrhau bod yr ymgynghori'n gyson â'r arferion gorau o ran gwell rheoleiddio, gan gynnwys cynnal Asesiad o'r Ardrawiad Rheoleidddio lle bo hynny'n briodol.

Mae'r cod cyflawn ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet, cyfeiriad
http://www.cabinetoffice.gov.uk/regulation/consultation/index.asp

ATODIAD C

Rhestr o'r cyrff yr ymgynghorwyd â nhw'n barod

Vodafone
O2
Orange
T-Mobile
3
GSMA
Ofcom

Bwriadwn ymgynghori â'r cyrff canlynol:

Gwasanaeth Busnesau Bach
CBI
FSB
Cyngor Defnyddwyr Cenedlaethol
Swyddfa Masnachu Teg
Intellect
FCS
Sefydliad y Cyfarwyddwyr
CMA
Virgin Mobile
Tesco Mobile
Fresh/Talk Talk
Sirocom
BT Mobile
Pipex Communications Plc
Easy Mobile